

THEATR BRYCHEIN!OG



YMDDIRIEDOLWR

Pecyn Recriwtio



Theatr Brycheiniog

Y Darlun Llawn

Theatr Brycheiniog yw prif leoliad Canolbarth Cymru ar gyfer Theatr, y Celfyddydau a Diwylliant. Rydym ni'n theatr annibynnol ac yn elusen, gan fwynhau cefnogaeth hanfodol gan Gyngor y Celfyddydau Cymru, ein cyngor tref rhagorol yn Aberhonddu a chyllidwyr grant annibynnol, a gydbwysir gan incwm a enillwyd a chodi arian. Ar hyn o bryd mae trosiant tua £1m y flwyddyn ac yn cynyddu. Mae gennym staff craidd o 25 gyda nifer tebyg o staff rhan amser a gweithwyr achlysurol. Rydym ni'n cyflwyno rhaglenni celfyddydol cynhwysol ac amrywiol i ymwelwyr, drwy gyfrwng profiad unigryw o ansawdd uchel, sy'n ennyn diddordeb, yn diddanu ac yn herio cynulleidfaoedd.

Lleolir y Theatr mewn llecyn hyfryd ar lan y dŵr yn Aberhonddu – yng nghanol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac mae'n gallu ymhyfrydu mewn ymgysylltiad cymunedol, ynghyd â phresenoldeb a niferoedd ymwelwyr trawiadol. Cynhelir arlwy eang o waith gan bartneriaid proffesiynol a chymunedol yn yr awditoriwm theatr hyblyg 470 sedd (600 yn sefyll), stiwdio/gofod ymarfer 120 sedd ac oriel aml-ddefnydd hyblyg. Ymysg gwasanaethau a mannau eraill yn y Theatr ceir bar, caffi ar lan y gamlas, siop a chanolfan docynnau.

Croesewir amrywiaeth eang o ymarferwyr celfyddydol proffesiynol gennym – o Opera Cenedlaethol Cymru, Opra Cymru, Opera Canolbarth Cymru a Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC i'r goreuon o blith cwmnïau theatr teithiol Cymru, gan gynnwys Theatr na nŌg, Theatr Genedlaethol Cymru, Theatr Clwyd, Theatr Iolo, Arad Goch a Frân Wen. Mae ein harlwy dawns yn cynnwys Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru, Ballet Cymru a'r cwmni lleol arloesol, Bale Gŵyl Aberhonddu. Rydym ni'n gartref i amrywiaeth gyfoethog o ddigwyddiadau sy'n denu doniau a chynulleidfaoedd rhyngwladol gan gynnwys Gŵyl Faróc Aberhonddu, Jazz Aberhonddu a Gŵyl Gorawl Aberhonddu. Rydym hefyd yn arddangos gwaith anhygoel ein cwmnïau theatr cymunedol hirsefydlog, Theatr Fach Aberhonddu a'r Westenders.

Rydyn ni'n arbennig o falch o'r gwaith a wneir yn ein canolfan i feithrin talent ifanc. Rydym ni'n gartref i amrywiaeth eang o sefydliadau cymunedol sy'n ymgysylltu, yn ysbrydoli ac yn datblygu sgiliau perfformio ar draws cerddoriaeth, dawns a theatr. Rydym ni'n gofalu am ein cenedlaethau hŷn hefyd, gydag un o'r grwpiau u3a (Prifysgol y Drydedd Oes) prysuraf a mwyaf llwyddiannus ym Mhrydain. Ac mae cyfleoedd iechyd a llesiant yno i bawb, gyda phopeth o Tai Chi i ddrymio Taiko, ac ychydig o Pilates i gloi eich diwrnod.

Ein gweledigaeth yw creu argraff ar fywyd diwylliannol Cymru er budd pawb ohonom, yn ein safle fel prif leoliad diwylliannol canolbarth Cymru. Rydym ni'n cyrraedd at bawb allwn ni gyda chreadigrwydd i gyfoethogi a denu, gan gynnwys a darparu ar gyfer pobl Cymru a'n hymwelwyr lluosog ac amrywiol. Rydym ni'n darparu ymgysylltiad cynhwysol, amrywiol parhaus â'r celfyddydau, sy'n esblygu'n barhaus, a phrofiad unigryw o safon uchel i ymwelwyr, sy'n ysbrydoli, yn cyffroi ac yn herio pobl mor eang a hygyrch â phosib, gan wella ein llesiant oll.

Yr Uchelgais Mawr

Fel llawer o leoliadau canolig ar draws y DU, rydyn ni wedi wynebu – ac yn parhau i wynebu – nifer o heriau ariannol. Rydyn ni'n llywio ein ffordd drwy effaith barhaus yr argyfwng costau byw, chwyddiant ac ymddygiad newidiol cynulleidfaoedd. Rydyn ni'n adeiladu model ariannol newydd a chynaliadwy sy'n ein galluogi i addasu i'r cyfnod cyfnewidiol hwn ac esblygu'r hyn a wnawn er mwyn gwasanaethu yn y ffordd orau holl aelodau teulu Theatr Brycheiniog a chymuned ehangach canolbarth Cymru.

Ein Cyfarwyddwr, Eleri B Jones, sy'n arwain y gwaith hwnnw. Ymunodd Eleri â ni ym mis Ionawr 2024, a daw â chyfoeth o brofiad actio a chyfarwyddo yn ei sgil. Hi oedd cyd-dderbynnydd cyntaf Hyfforddeiaeth Ymddiriedolaeth Carne ar gyfer Cyfarwyddwyr yng Nghymru. Cynlluniwyd y cynllun arloesol hwnnw, a leolir yn Theatr Clwyd ac a gefnogir gan CCC, i roi hyfforddiant trylwyr i gyfarwyddwyr sydd ag uchelgais i gynnal eu theatr eu hunain, ym mhob agwedd ar weithrediadau lleoliadau.

Rydyn ni eisoes wedi gwneud dechrau da wrth drawsnewid ein hadeilad a'n huchelgais ar gyfer y dyfodol. Y llynedd, cwblhawyd gwerth £250,000 o waith adnewyddu ar flaen tŷ gyda chyllid o Gronfeydd Cymdeithasol Ewropeaidd drwy WCVA a CCC. Llwyddwyd hefyd o gael seddau newydd yn yr awditoriwm. Dechreuodd eleni gyda derbyn grant sylweddol gan CCC i adnewyddu ein llwyfan drud a henffasiwn a goleuadau'r awditoriwm, gan osod unedau LED ynni effeithlon newydd. Yn y cyfamser, mae gwaith adnewyddu sylweddol gwerth £2m ar y gweill i adnewyddu ffenestri, drysau allanol, toiledau, lifftiau a systemau awyru o amgylch yr adeilad wrth i ni a sector y celfyddydau ymdrechu i sicrhau dyfodol mwy ecogyfeillgar. Daw'r cyllid o Gronfa Codi'r Gwastad y DU i Gyngor Sir Powys, sy'n berchen ar yr adeilad, a phan ddaw'r gwaith i ben, dechreuir ar brydles 25 mlynedd newydd gan Theatr Brycheiniog.

Er mwyn cynnal lefel briodol o gefnogaeth, atebolrwydd a throsolwg i'r gwaith hwn, rydym hefyd yn adnewyddu aelodaeth ein bwrdd ymddiriedolwyr. Yn ystod haf 2024 bwriadwn gyfethol tri ymddiriedolwr ychwanegol sy'n meddu ar sgiliau penodol sydd ar goll neu ar fin cael eu colli o blith ein haelodaeth bresennol. Rydym hefyd yn bwriadu lansio ymarfer recriwtio cyhoeddus a gynlluniwyd i ehangu'r sylfaen sgiliau ac amrywiaeth ein bwrdd. Hoffem glywed gan ddarpar ymddiriedolwyr a all gefnogi ein gwaith wrth i rai o'n cydweithwyr sydd â'r record gwasanaeth mwyaf maith roi'r gorau i'w swyddi ar ddiwedd eu cyfnod yn yr hydref. Os hoffech chi fod yn rhan o gam nesaf ein taith, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych. Darllenwch drwy'r pecyn hwn a chysylltwch â'm cydweithiwr Hilary Davis dros e-bost, y gwelir ei chyfeiriad o dan 'sut i wneud cais', isod.

Andy Collinson.

Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr
Mehafin 2024

Rôl Ymddiriedolwyr

Cyflwyniad

Mae Theatr Brycheiniog yn elusen gofrestredig (a dderbyniwyd gan Gyllid y Wlad fel sefydliad elusennol yng Nghymru a Lloegr) Rhif Cofrestru Elusen: 1005327 ac yn gwmni a gyfyngir gan warant, Rhif Cofrestru'r Cwmni 2446965, heb ddim cyfalaf cyfranddaliadau, ac fe'i llywodraethir gan ei offerynnau elusennol a Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu. Mae'r cwmni a gyfyngir gan warant yn un nad yw'n rhannu elw.

Mae pob aelod o'r Bwrdd yn gweithredu fel Cyfarwyddwyr dan gyfraith cwmnïau, ac fel Ymddiriedolwyr. Fel Cyfarwyddwr, mae gennych rai dyletswyddau cyfreithiol, ariannol ac ymddiriedol dan gyfraith cwmnïau ac fel Ymddiriedolwr, rhaid i chi hefyd gydymffurfio â chyfraith elusennau. Fe all y Bwrdd hefyd gael cyfrifoldebau wedi'u gosod arnynt gan gyrff ariannu.

Er bod llawer o'r dyletswyddau'n cael eu dirprwyo i staff, ac mae'n ofynnol i'r Bwrdd wneud penderfyniadau clir ynghylch dirprwyo, mae cyfrifoldeb eithaf dros bob agwedd ar weithrediad y Cwmni'n gorwedd gyda'r Bwrdd Cyfarwyddwyr. Mae hi felly'n bwysig fod pob aelod o'r Bwrdd yn sicrhau eu bod nhw'n deall hanes Theatr Brycheiniog a'i gweledigaeth bresennol a'i safle, ac yn cynnal eu gwybodaeth gyfredol o faterion eraill a allai effeithio ar y cwmni.



Nodweddion Personol a Gofynion Swydd Aelodau'r Bwrdd

- Brwdfrydedd a dealltwriaeth gyffredinol o waith Theatr Brycheiniog.
- Ymrwymiad i gyflawni dyletswyddau Aelod o'r Bwrdd.
- Y gallu i weithio fel aelod o dîm a pharodrwydd i ddatgan argyhoeddiadau personol ac, yn yr un modd, i dderbyn penderfyniad mwyafrifol a bod yn oddefgar o farn pobl eraill.
- Bod yn aelod uchel ei barch o'r gymuned gyda'r gallu i rwydweithio, ac sy'n meddu ar gysylltiadau da â meysydd busnes neu gymunedol neu'r sector gwirfoddol. Dylai aelodau o'r Bwrdd fod yn barod i ddarparu cefnogaeth a chymorth i staff drwy gyfrwng eu cysylltiadau, a gyda gwaith codi arian ac allgymorth gyda'r sectorau preifat, gwirfoddol a statudol.
- Cynnal dealltwriaeth gyfredol o weithdrefnau a pholisïau'r sefydliad, a meddu ar barodrwydd i'w datblygu, cyfrannu atynt, eu hadolygu a'u cyflwyno.
- Cefnogi cyd-Ymddiriedolwyr, staff a gwirfoddolwyr yn Theatr Brycheiniog a darparu adborth, cefnogaeth ac arweiniad o fewn fframweithiau derbyniol ar gyfer pob un.
- Parodrwydd i gynnig sgiliau personol a busnes a phrofiad i gefnogi gwaith y staff, pan fo angen.
- Ymrwymiad i fod yn wybodus am waith Theatr Brycheiniog.
- Parodrwydd i weithredu fel hyrwyddwr i Theatr Brycheiniog.
- Y gallu i drin gwybodaeth sensitif yn gyfrinachol.

Disgwylir i Ymddiriedolwyr:

- Mynychu cyfarfodydd Bwrdd ac is-bwyllgorau chwarterol, a darllen papurau cyn eu mynychu.
- Mynychu'r Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol.
- Mynychu digwyddiadau a pherfformiadau a bod yn barod i raddau ar gyfer cyfarfodydd ad hoc
- Cymryd rhan mewn tasgau eraill sy'n codi o bryd i'w gilydd, fel cyfweld staff newydd, helpu gyda chodi arian.
- Meddu ar yr wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau'r sefydliad a materion ehangach sy'n effeithio ar ei waith.

Gofynion Sgiliau Presennol

Mae Theatr Brycheiniog yn cydnabod fod angen arbenigedd yn y meysydd canlynol:

- Y celfyddydau a llunio rhaglenni artistig
- Rheoli lleoliadau
- Amrywiaeth a chynhwysiant
- Cyllid a materion cyfreithiol
- Allgyrraedd ac ymgysylltu cymunedol

Rhoddir pwys ar rwydweithiau busnes da hefyd.

Hoffem glywed yn arbennig gan rai â diddordeb sy'n siarad Cymraeg.

Er bod Aelodau'r Bwrdd fel arfer yn dod o ddalgylch Theatr Brycheiniog, rydyn ni'n awyddus i ymestyn hyn i ardaloedd daearyddol eraill er mwyn cyflawni gofynion am sgiliau penodol.

Bydd y Bwrdd yn cynnal archwiliad rheolaidd o'i sgiliau, gan ystyried pa rwydweithiau all gael eu cynnwys er mwyn recriwtio sgiliau sydd ar goll. Polisi'r Bwrdd yw gweithredu proses ddethol agored a chynhwysol wrth recriwtio aelodau newydd i'r Bwrdd.



Photo courtesy of Theatr na nŌg

Ymrwymiad

Disgwylir i Ymddiriedolwyr fynychu cyfarfodydd Bwrdd chwarterol, a gynhelir gyda'r nos yn ystod yr wythnos waith, 6pm tan 8pm. Yn ogystal, cynhelir is-bwyllgorau atodol yn chwarterol gydag amserlen sy'n siwtio'r mynychwyr.

Gosodir dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd ddeuddeng mis ymlaen llaw.

Gall aelodau nad ydynt yn byw'n lleol fynychu dros Zoom/Teams.

Gall y Cadeirydd ofyn i unrhyw Ymddiriedolwr yn methu'n rheolaidd â mynychu lleiafswm o 50% o gyfarfodydd ymddiswyddo.

Swydd wirfoddol yw hon, ond gall Ymddiriedolwyr hawlio costau teithio ble bo'n addas.

Adolygu

Bydd y Bwrdd yn adolygu'i berfformiad ei hunan yn flynyddol.

Cyfnod y swydd

Adolygir aelodaeth y bwrdd yn barhaus, gyda dull o gylchdroi sydd wedi'i sefydlu a chyfnod yn y swydd sy'n golygu fod angen ymgeiswyr newydd ar y Theatr bob blwyddyn fwy neu lai. Gellir cyfethol Aelodau'r Bwrdd i'r Bwrdd, yn dilyn proses recriwtio, a gellir eu henwebu yn y Cyfarfod Blynnyddol Cyffredinol i aelodau, ble gallant sefyll am ddau dymor tair blynedd o hyd.

Wedi hyn rhaid iddynt ildio'u lle, ond gall yr Ymddiriedolwyr, mewn amgylchiadau eithriadol (diffyg niferoedd i ffurfio cworwm, neu i gael sgiliau penodol), gynnig trydydd tymor iddynt.

Sut i ymgeisio

I drafod y rôl ymhellach, neu i ofyn am fwy o wybodaeth a ffurflen gais, anfonwch e-bost at y Dirprwy Gadeirydd, Hilary Davis (hilary@brycheiniog.co.uk).

